| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **22 HYDREF 2015** |
| **TEITL:** | YMATEB COMISYNYDD Y GYMRAEG I'R ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH |
| **AWDUR:** | Gwenllian Williams<br>Swyddog Datblygu Iaith |
| **PWRPAS AR YR ADRODDIAD:** | • Cyflwyno ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Blynyddol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r ymholiadau pellach.<br>• Ceisio ymateb yr aelodau i'r materion a godir yn sgil yr adroddiad. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Anfonwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Iaith y Cyngor at y Comisiynydd ar y 30 o Fehefin 2015.

1.2 Derbyniwyd ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Blynyddol ar 17 Gorffennaf 2015. Roedd yr adroddiad ymateb yn cynnwys nifer o gwestiynau yr oedd gofyn i ni ymateb iddynt o fewn 20 niwrnod.

1.3 Anfonwyd ymateb i'r cwestiynau pellach hyn ar 14 Medi 2015 (Atodiad 1)

1.4 Bydd cyfarfod adborth yn cael ei gynnal gydag un o swyddogion y Comisiynydd 27ain Hydref 2015.

## 2. SYLWADAU AR YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

2.1 Tynnwyd sylw at ddau wendid wrth baratoi gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r ymateb i'r ymholiadau pellach.

2.2 Mae'r ddau fater yn cael sylw yn y Safonau, ac felly bydd angen ystyried sut y byddwn yn newid arferion yn y dyfodol.

### i) Trefn adrodd ar gwynion

**Y gwendid**:
Cofnodwyd y cwynion yn yr adroddiad blynyddol un union fel yr oeddynt yn ymddangos yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Iaith. Pan gafwyd ymholiad am rai o'r cwynion yn yr ymateb gan y Comisiynydd, daeth yn amlwg nad oedd pob un o'r achosion wedi eu cau yn foddhaol. Gan fod hon yn gofnod swyddogol o gwynion mae angen sicrhau trefn gadarn ar gyfer y dyfodol a sicrhau na fydd cwynion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Iaith nes y bydd unrhyw ymholiadau wedi eu cwblhau ac ymateb wedi ei anfon i'r achwynydd os yn briodol.

**Yr hyn mae'r Safonau yn gofyn i ni ei wneud:**
Safon 147: Rhaid i chi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.

Safon 148: Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Safon 149: Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gwyn yn ymwneud a'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio a hwy ai peidio).

**ii) Trefn cofnodi sgiliau iaith staff**

**Y gwendid:**
Roedd anghysondeb yn yr wybodaeth a'r ymateb a gafwyd gan adrannau wrth geisio casglu'r data hwn ar gyfer yr adroddiad blynyddol. Ar hyn o bryd, dim ond nodi a yw staff yn siarad Cymraeg neu beidio y byddwn ni, ac mae hynny yn dibynnu i raddau helaeth ar ddehongliad rheolwr, yn enwedig wrth ystyried dysgwyr. Bydd angen ystyried i ba raddau ac ym mha fodd y byddwn yn cofnodi gallu ieithyddol yn y dyfodol. A ydym ni'n parhau i gofnodi yn yr un modd neu a oes angen i ni edrych ar sgiliau a rhuglder?

**Yr hyn mae'r Safonau yn gofyn i ni ei wneud:**
Safon 127: Rhaid i chi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.

Safon 151: Rhaid i chi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol a Safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, a phan fo hynny'n wybyddus i chi, rhaid i chi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r aelodau:

3.1 Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'n Hadroddiad a'n ymateb ninnau i'r cais am wybodaeth bellach.

3.2 Derbyn yr argymhelliad na fydd Cwynion iaith yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor nes y bydd yr achosion wedi eu cau.

3.3 Ystyried i ba raddau y dylai'r Cyngor fod yn cofnodi sgiliau iaith.